Cinio Gŵyl Ddewi 2013

Nos Sadwrn, Mawrth 2, 2013, cynhaliwyd cinio Gŵyl Ddewi y Gymdeithas Ddeintyddol ym Mwyty'r Sosban ym Mhorthaethwy. Cafwyd pryd hynod o flasus wedi ei ddarparu'n arbennig ar ein cyfer gan y cogydd dawnus, Stephen Stevens. Roedd y bwyty'n orlawn ac wedi'r wledd cafwyd adloniant yng ngwmni Tradd.Môn, sef criw o gerddorion yn perfformio casgliad o alawon traddodiadol Cymreig, rhai ohonynt yn offerynnol ac eraill yn ganeuon gwerin. Cafwyd esboniadau diddorol iawn am gefndir nifer o'r caneuon ac roedd sawl troed yn symud i guriad y gerddoriaeth fywiog.

Dymuna'r Gymdeithas ddiolch yn arbennig i Huw Roberts a gweddill criw Tradd.Môn ac i Stephen a Bethan Stevens, perchnogion Sosban, am noson mor arbennig a hwyliog.